**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Albert Heaney
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

5 Chwefror 2019

Annwyl Mr Heaney

**Plant a Phobl Ifanc sydd wedi bod Mewn Gofal**

Ystyriodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar gostau a gwerth am arian gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2019. Mae'r Aelodau wedi gofyn i mi ysgrifennu atoch i ofyn am eglurhad ar nifer o faterion:

**Argymhelliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr ymateb yn dweud:

'... Mae’r gwaith o ddatblygu Fframwaith Perfformiad a Gwella i Blant yn mynd rhagddo’n dda, a disgwylir i awdurdodau lleol gasglu data yn erbyn cyfres o safonau ansawdd, mesurau ansoddol a mesurau meintiol.'

Byddem yn croesawu eglurhad o ran y berthynas rhwng y trefniadau ar gyfer y Fframwaith Perfformiad a Gwella i Blant a'r dangosyddion i ddarparu set o ddata ehangach ar y canlyniadau sy'n cynnwys ystod ehangach o feysydd polisi i'w rhoi ar waith o fis Ebrill 2019 ac sy'n ychwanegol at y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith. Nid yw'r Pwyllgor yn glir o ran pam y bydd yn bosibl gweithredu'r naill o fis Ebrill 2019 ond y llall ddim tan mis Ebrill 2020. At hynny, roedd un o brif themâu ein hadroddiad yn ymwneud â sicrhau y gwrandewir ar lais y Plentyn yn ystod pob cam, ac nid yw'n glir i'r Pwyllgor sut mae barn pobl ifanc wedi cael ei hystyried wrth ddatblygu'r dulliau hyn.

**Argymhelliad 2:** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr ymateb yn dweud bod y dull mewn perthynas â'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wrthi'n cael ei adolygu ar y cyd gyda phartneriaid perthnasol a bydd y gwaith hwn yn sicrhau y caiff effaith a gwerth am arian y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu huchafu. Nodaf y bydd y dull newydd hwn yn dod i rym o fis Ebrill 2019, ac felly byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch a fydd unrhyw werthusiad parhaus ar gyfer y trefniadau newydd hynny, gan gymryd ar y dybiaeth y bydd y gwerthusiad annibynnol a grybwyllir yn yr ymateb yn ymwneud â'r trefniadau presennol.

**Argymhelliad 3:** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad ac wedi nodi sut y mae'n bwriadu rhoi rhagor o wybodaeth yn gyhoeddus ynghylch y Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant a gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Fodd bynnag, rydym yn siomedig o ran safbwynt Llywodraeth Cymru nad yw'n bwriadu cyhoeddi'r cofnodion, am ei bod yn pryderu y gallai hyn rwystro dadl rydd ac onest. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn werth rhannu'n ehangach yr hyn a drafodir ym mhob cyfarfod er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd. Er ein bod yn gwerthfawrogi eich pryderon, rydym o'r farn y byddai'n fuddiol o leiaf cyhoeddi crynodeb o'r cofnodion.

**Argymhelliad 4:** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn a chyhoeddi tendr ymchwil newydd. Mae eich ymateb yn amlinellu'r dull yr ydych yn ei fabwysiadu ar gyfer hyn, sy'n ymddangos ychydig yn wahanol i'r hyn a argymhellwyd gan y Pwyllgor. Felly, byddem yn croesawu pe gallech rannu ei gwmpas â ni. Ar ben hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad o ran yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith ymchwil, gan nad oedd hyn yn glir yn yr ymateb.

**Argymhelliad 5:** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn derbyn bod y dystiolaeth a glywsom yn awgrymu nad yw adolygiadau diwedd lleoliad yn digwydd mor rheolaidd ag y dylent. Rydym yn nodi mai bwriad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried yn benodol mewn arolygiadau o wasanaethau plant yn y dyfodol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Byddem yn ddiolchgar am rywfaint o eglurhad ynghylch beth y mae hyn yn ei olygu yn ymarferol o ran amserlenni a pha mor eang yw'r ddarpariaeth ledled Cymru yng nghyd-destun rhaglen waith ehangach AGC. Nodwn o'r ymateb y caiff ystyriaeth ei rhoi o ran yr angen i gryfhau y Cod Ymarfer Rhan 6 i gynnwys

canllawiau penodol ar y camau i'w dilyn pan gynigir symud plentyn i leoliad newydd, a byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y bwriedir gwneud hyn.

**Argymhelliad 6**: Roedd y Pwyllgor yn cynnwys amserlen uchelgeisiol ar gyfer dadansoddi'r gwaith o ddarparu lleoliadau, gan ein bod o'r farn bod angen brys i ddeall hyn a datblygu strategaeth genedlaethol. Roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd yr ymateb yn cynnwys amserlen glir. Rydym yn gwerthfawrogi bod yr ymateb yn awgrymu y gallai'r drefn gomisiynu genedlaethol newydd ddod i rym yn 2021-22 ond nid ydym yn glir p'un a yw hynny'n ymrwymiad cadarn. Mae cysylltiad rhwng hyn â'n pryder yn argymhelliad 4, ynglŷn â diffyg amserlen ddisgwyliedig.

**Argymhelliad 7**: Mae'r Pwyllgor yn derbyn yn llawn y cymhlethdodau wrth ddad-gyfuno gwariant fesul plentyn sy'n derbyn gofal ar draws yr ystod gyfan o wasanaethau cyhoeddus, ond credwn fod y wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn sicrhau gwerth am arian. Mae gennym bryderon fod yr ymateb yn ymddangos fel ei fod yn nodi cyfyngiadau a allai olygu nad yw'n gallu mynd i'r afael yn llawn â'r pryderon a osodwyd gennym yn ein hadroddiad ynghylch tryloywder gwariant. Byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru o leiaf ymdrechu i fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn neu ymchwilio iddo fel achos untro yn hytrach na dweud nad yw'n debygol o gael ei weithredu. Rwy'n gwerthfawrogi bod heriau ond byddai rhagor o amser ac arbenigedd yn golygu y gellid o leiaf llunio amcangyfrif e.e. mewn perthynas ag addysg a gwasanaethau iechyd meddwl. Gofynnwn i chi ailystyried yr ymateb i'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 8**: Mae sylwadau'r Pwyllgor ar argymhellion 4, 6 a 7 yn berthnasol i'r argymhelliad hwn hefyd o gofio bod yr ymateb yn nodi y caiff hyn ei gyflawni drwy'r ymchwil ar gyfer yr argymhellion hyn. Mae gan y Pwyllgor bryder pellach o ran yr ymateb a roddwyd gan nad yw'n glir o ran a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu casglu'r wybodaeth berthnasol yn rheolaidd yn hytrach na gwneud un darn o ymchwil yn unig. Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro hyn yn eich ymateb.

**Argymhelliad 9**: Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y rhesymau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â pham y gwrthodwyd yr argymhelliad hwn a nodwn fod yr ymateb yn pwysleisio'r disgwyliad y dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio ar leihau'r angen am ofal a darparu cymorth effeithiol i deuluoedd i'w galluogi i aros gyda'i gilydd.

Ymddengys mai'r sail dros wrthod yr argymhelliad yw nad yw'n bosibl asesu'n benodol yr effaith o drosglwyddo'r arian grant a neilltuwyd yn flaenorol ar gyfer gwasanaethau ar ffiniau gofal i'r Grant Cynnal Refeniw. Fodd bynnag, wrth dderbyn y rhesymeg hon, hoffai'r Pwyllgor ofyn i Lywodraeth Cymru am sicrwydd o leiaf ynghylch lefel y gwariant parhaus ar y gwasanaethau hyn. Gall y sicrwydd hwn roi syniad o ran a fu unrhyw ddadfuddsoddi gan y gwasanaethau hyn ers trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a fydd Llywodraeth Cymru yn rhagweithiol wrth fonitro lefel y gwariant ar y gwasanaethau hyn drwy ymgysylltu'n barhaus â phartneriaid yr awdurdodau lleol a'r gwasanaethau plant.

**Argymhelliad 10**: Croesawodd yr Aelodau y dyraniad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau plant. Dyma oedd prif gymhelliad y Pwyllgor – mae'n well atal yn hytrach na cheisio ymdrin â'r canlyniad pe bai plant yn cael eu symud. Mae hwn yn faes y bydd y Pwyllgor yn cadw golwg arno, a byddem yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar y canlyniadau mewn perthynas â'r arian hwn ynghyd â sut mae'r arian ychwanegol yn cael ei fonitro.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**